# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**20 Ionawr 2015, Gosen, Llangwyllog**
**am 7:30 y.h.**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng C McGregor, D Morgan, W Vaughan, A Williams, G D Williams, W Williams, A Wyn, dwy PCSO | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng M Lees, D Roberts, D ap Rhobert, O Davies, D Rees (Cyngor Sir), R G Parry (Cyngor Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** - Cyng D Pritchard materion agenda 4.1, 5.1, 6.3 |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18 Tachwedd 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Gor-yrru Llangwyllog** - Darllenwyd ymateb y Cyngor Sir at Miss Megan Pritchard, Llangwyllog yn dweud yn anffodus nid all yr Adran Priffyrdd gyfiawnhau gostwng y cyfyngiad cyflymdra o 40mya i 30mya oherwydd nad yw'r ardal yn cwrdd a'r gyfynion ar gyfer cyfyngiad 30mya. Maent wedi gofyn i'r Heddlu monitro ac ailystyried y mater. |
| **4.2** | **Gofeb Talwrn** - mewn llaw |
| **4.3** | **Llwybrau Cyhoeddus** - Mae'r gwaith wedi cael ei wneud. |
| **4.4** | **Rali** - Gofynnwyd i'r Clerc i anfon ymatebion Rali Mon at yr aelodau ac ail ystyried yn y cyfarfod nesaf |
| **4.5** | **Yr Heddlu** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Heddlu |
| **4.6** | **Arwydd Talwrn** - Ymateb gan y Cyngor Sir: Bydd Arolygwr Priffyrdd yn cael golwg ar y safle a threfnu cael arwydd pentref newydd. Cynigodd Cyng A Williams edrych os yw yr arwydd wedi cael ei osod. |
| **4.7** | **Palmant Talwrn -** Darllenwyd ymateb y Cyngor Sir "Nid oes sicrwydd o ran dyfodol cynlluniau Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned ond mae Llywodraeth Cymru wedi sgwennu at Awdurdodau yn holi am restr o gynlluniau posibl ar gyfer y dyfodol. Roedd Talwrn wedi ei nodi fel safle posibl gennym.<br>Mae y Llywodraeth yn gofyn i Gynghorau geisio am ardaleodd lle mae agenda taclo tlodi a chymunedau yn gyntaf.<br>Mae hefyd werth nodi y bu cais llwyddiannus ar gyfer Llwybr Mwyn Diogel I'r Ysgol yn Nhalwrn yn 2007/08 sydd yn gymharol ddiweddar, felly mae posibl na fyddai y Llywodraeth yn edrych mor ffafriol ar gais pellach yn y r'un gymuned" |
| | **Llofnod……Cadeirydd 17.03.15** |

| | |
|---|---|
| | |
| **4.8** | **Baw ceffyl a lefelu Lon Hafan Deg - Bodlondeb** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | 23C319 cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl materion wedi'u gadw'n ol ar dir ger Cae Drain, Llangwyllog (gadawodd Cyng D Pritchard y cyfarfod yn ystod y mater hwn) - penderfyniad - gwrthwynebu am yr un rhesymau ag y tro diwethaf |
| **5.2** | 23C320 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Tyn Lon, Talwrn - dim sylwadau |
| | **Priffyrdd** |
| **5.3** | Gor-yrru Llangwyllog - gweler 4.1 |
| **5.4** | Palmant Talwrn - gweler 4.7 |
| **5.5** | Arwydd Talwrn - gweler 4.6 |
| | **Adran Polisi** |
| **5.6** | Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - gwybodaeth yn unig - dyddiad y cyfarfod nesaf |
| | **Refiniw** |
| **5.7** | Precept 2015/16 Penderfyniwyd peidio codi y precept |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | Rali Mon - gweler 4.4 |
| **6.2** | Comisiynydd yr Heddlu - cydnabyddiaeth i'n llythyr |
| **6.3** | D Pritchard Gor-yrru Llangwyllog **-** Mae Cyng Pritchard wedi cael gohebiaeth gan yr Adran Trafnidiaeth eu bod wedi gwneud speed survey arall yn Llangwyllog yn ystod mis Gorffennaf 2014. Maen ymddangos yn hwn fod yr 85 percentile yn 48 milltir yr awr. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir ac yn dweud bod y Cyngor yn siomedig nad yw wedi derbyn y gwybodaeth. A yw hyn yn olygu y bydd y cyflymder yn cael ei leihau i 30myh? |
| | |
| **7** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Penderfyniwyd talu y canlynol: |
| **7.1** | Cymunedau yn Gyntaf £273.73 (torri llwybrau) |
| **7.2** | Zurich Municipal £243.80 (yswiriant blynyddol) |
| **7.3** | Capel Gosen £100 (rhent) |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | 23C318A cais llawn ar gyfer creu mynedfa i gerbydau ar dir yn Gorslwyd, Llangefni. Penderfyniwyd cefnogi y cais |
| **8.2** | Gor-yrru Talwrn - Dywedodd Cyng D Morgan bod ceir yn gor-yrru yn Talwrn rhwng 3 - 4 yn y bore. Cynigodd yr PCSO yn bresennol trosglwyddo y mater at yr ardran traffig |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 17.03.15** |

| | |
|---|---|
| **8.3** | BT - Dywedodd Cyng A Williams bod trigolion Llanddyfnan wedi bod heb lein ffôn a broadband ers 7 lonawr a bod nifer wedi codi cwynion gyda BT. Gofynwyd i'r Clerc dod ar mater at sylw BT. |
| **8.4** | National Grid - ail ystyried y mater yn y cyfarfod nesaf |
| **8.5** | Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Mon - ail edrych ar y mater yn y cyfarfod nesaf (bydd y Clerc yn anfon y linc) |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 17.03.15** |